OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2940

## Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011

## RHAN II

Gwerthuso Penaethiaid

**Penodi gwerthuswyr**

**7.**—(1) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol benodi yn werthuswyr pennaeth o leiaf ddau lywodraethwr, y mae'n rhaid i un ohonynt o leiaf fod yn llywodraethwr sefydledig i'r ysgol os yw'n ysgol sydd â chymeriad crefyddol neu'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd heb gymeriad crefyddol.

(2) Caiff y corff llywodraethu ar unrhyw adeg benodi gwerthuswr newydd yn lle unrhyw werthuswr presennol a benodwyd o dan baragraff (1).

(3) Ni chaniateir penodi llywodraethwr sy'n athro neu'n athrawes neu'n aelod arall o'r staff yn yr ysgol yn werthuswr i'r pennaeth.

(4) Caiff yr awdurdod lleol benodi un neu ddau o werthuswyr mewn perthynas â gwerthuso pennaeth.

(5) Caiff y corff llywodraethu wneud cais ar unrhyw adeg i'r awdurdod lleol am benodi gwerthuswr newydd yn lle gwerthuswr presennol a benodwyd gan yr awdurdod lleol ond rhaid i benodiad o'r fath fod yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol a rhaid cael esboniad ysgrifenedig ar y rhesymau dros wrthodiad i gyd-fynd ag unrhyw wrthodiad.

(6) Os pennaeth ysgol sydd â chymeriad crefyddol sy'n cael ei werthuso, caiff yr Awdurdod Esgobaeth benodi gwerthuswr i'r pennaeth.